



Gwasanaeth TGCh Ysgolion a'r Gymuned
01970 633678



Ceredigion

Hidlo'r Rhyngrwyd
mewn Ysgolion

CYNNWYS

	Tudalen
Cefndir.....	1
Hidlo'r Rhyngrwyd.....	1
Smoothwall - Sut mae system hidlo'r we Ceredigion yn gweithio?	2
Gwneud cais i newid	3
Rhoi caniatâd i gyrchu'r rhyngrwyd	3
Lefelau Hidlo'r Rhyngrwyd	3
Polisi Hidlo'r Rhyngrwyd Cyfredol	4

Cefndir

Mae'r rhyngwrwyd yn sianel gyfathrebu agored, heb ei rheoli. Mae'r We Fyd-eang, e-bost, blogiau a rhwydweithio cymdeithasol i gyd yn trosglwyddo gwybodaeth gan ddefnyddio seilwaith cyfathrebu'r rhyngwrwyd yn rhyngwladol am gost isel. Gall unrhyw un anfon negeseuon, trafod syniadau a chyhoeddi deunyddiau heb fawr o gyfyngiadau. Mae nodweddion yma'r rhyngwrwyd yn ei gwneud yn adnodd amhrisiadwy a ddefnyddir gan filiynau o bobl bob dydd.

Mae'n rhaid i ysgolion ddiogelu eu hunain rhag cael eu herio'n gyfreithiol. Mae'r gyfraith yn dal i fynd â datblygiadau'r rhyngwrwyd: er enghraifft, mae'n drosedd i storio delweddau sy'n dangos cam-drin plant a defnyddio e-bost, testun neu negeseua gwib (IM) i baratoi plant i bwrpas rhyw.

Gall ysgolion helpu i ddiogelu eu hunain drwy ei gwneud hi'n glir i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr bod defnyddio offer yr ysgol am resymau amhriodol "heb ei awdurdodi". Fodd bynnag, dylai ysgolion fod yn ymwybodol na fydd ymwadiad yn ddigonol i warchod ysgol rhag honiad o anaf personol, ac mae'n rhaid i'r ysgol sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd a bod mesurau wedi cael eu rhoi yn eu lle i ddiogelu defnyddwyr.

Hidlo'r Rhyngwrwyd


Mae llawer o'r deunyddiau ar y rhyngwrwyd yn cael eu cyhoeddi ar gyfer oedolion ac mae rhai deunyddiau yn anaddas i ddisgyblion. Yn ogystal, ceir gwybodaeth am arfau, troseddau a hiliaeth ac mae'n rhaid cael rheolaethau addas i gyrchu'r rhain.

Mae meddalwedd hidlo'r we yn ceisio cyfyngu mynediad defnyddwyr i safleoedd penodol ar y rhyngwrwyd. Ni ddylai rwystro defnyddwyr ysgol rhag cyrchu deunyddiau addysgu a dysgu priodol.

Mae'r meddalwedd a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Ngheredigion wedi'i osod i hidlo categorïau safle cytunedig. Mae'r mwyafrif o'r gwefannau wedi'u neilltuo i gategori pan fyddant yn hysbys, e.e. adloniant, gemau, cynnwys oedolion. Hyd yn oed pan fydd meddalwedd hidlo'r rhyngwrwyd yn cael ei ddefnyddio ni allwch warantu na fydd defnyddwyr yn gallu cyrchu deunyddiau anaddas. Efallai na fydd categori gan rai gwefannau neu efallai na fydd eraill wedi'u categoreiddio'n briodol.

Mewn achos o'r fath mae'n hollbwysig bod y sawl sy'n gyfrifol am e-ddiogelwch yn yr ysgol yn rhestru'r URL llawn (cyfeiriad gwe) www.... fel bod modd gweithredu'n briodol. Mae hefyd yn arfer da i wirio'r wefan gyfan ac unrhyw ddolenni allanol o'r safle hwnnw oherwydd gall y rhain gynnwys deunyddiau anaddas hefydd a allai effeithio ar gategori'r safle.

Smoothwall - Sut mae system hidlo'r we Ceredigion yn gweithio?



Proses Smoothwall

1. Mae pob cais gwe yn mynd trwy weinyddwyr Smoothwall. I ddechrau bydd yn gwirio'r URL ac yn penderfynu a yw'r safle wedi'i ganiatáu neu beidio.
2. Mae cynnwys y dudalen yn cael ei wirio. Defnyddir hidlwyr iaith. Bydd unrhyw gynnwys planedig, h.y. lluniau / fideos yn cael eu gwirio a'u hidlo.
3. Mae hysbysebion a sylwadau o fewn YouTube yn cael eu dileu.
4. Bydd pob cais am fynediad yn cael ei gofnodi.

Nid yw gwefannau cyfan yn cael eu hidlo, bydd pob eitem ar y dudalen yn cael ei hidlo'n unigol, e.e. yn achos delweddau Google mae hidlo'n digwydd ar y safleoedd y mae Google yn tynnu eu delweddau ohonynt ac nid delweddau Google ei hun. Yn yr un modd, os yw eitemau wedi'u plannu ar wefannau ysgolion, cânt eu hidlo'n briodol.

Bydd defnyddwyr yn cael eu hidlo yn dibynnu ar eu henw defnyddiwr. Rhennir defnyddwyr yn bedwar categori; 'Craidd wedi'i Ganiatáu a'i Flocio', 'Mynediad Cyhoeddus', 'Staff Addysgu ac Nad ydynt yn Addysgu' a 'Myfyriwr'. Bydd eu hawliau mynediad yn dibynnu ar eu henw defnyddiwr. Bydd dyfais lle nad oes rhaid mewngofnodi yn cael ei hidlo'n awtomatig fel Myfyriwr.

Gwneud cais i newid

Mae hidlo'r we yn broses barhaus a bydd angen ei newid o bryd i'w gilydd. Efallai y byddwch yn teimlo bod angen addasu'r rheolau sydd yn eu lle.

Y broses ar gyfer gwneud cais i newid hidlo'r we.

1. Os ydych yn teimlo bod safle wedi cael ei flocio'n anghywir, cysylltwch â desg gymorth TGCh gydag URL y dudalen we a'r neges sydd i'w gweld ar y sgrin.
 - a. Ar ôl edrych ar y safle, os ydynt yn penderfynu bod y safle wedi'i gategoreiddio'n anghywir bydd staff cymorth yn ceisio ail-gategoreiddio'r safle.
2. Os yw wedi'i gategoreiddio'n gywir, caiff y cais ei anfon i fforwm TGCh ysgolion i newid y polisi hidlo.

Rhoi caniatâd i gyrchu'r rhyngrwyd

Gall yr ysgol benderfynu pwy sy'n cael caniatâd i gyrchu'r Rhyngrwyd. **Argymhellir bod pob defnyddiwr yn cael mynediad i'r rhyngrwyd a bod lefel briodol o hidlo'r rhyngrwyd yn cael ei neilltuo iddynt.** Mae hyn yn golygu bod llwybr y gellir ei archwilio ar gyfer eu mynediad i'r rhyngrwyd.

Mae'n rhaid i bob defnyddiwr sydd â mynediad i'r system gwasanaeth a reolir gan yr ysgol lofnodi'r ffurflen Defnydd Derbyniol gan nodi eu bod yn deall yr hyn a olygir wrth Ddefnydd Diogel a Chyfrifol o'r Rhyngrwyd.

Lefelau Hidlo'r Rhyngrwyd

Mae Gwasanaeth TGCh Ysgolion a'r Gymuned Ceredigion yn cytuno ar y lefelau hidlo ar gyfer pob ysgol. Ar hyn o bryd mae un lefel ar gyfer pob defnyddiwr sy'n fyfyrwr. Mae hyn wedi'i gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli Gwasanaethau yr Adran Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes. Mae'r ddogfen 'Summary of Current Smoothwall Settings' yn cynnwys gwybodaeth sy'n dangos pa gategoriâu o'r rhyngrwyd sy'n cael eu hidlo ar bob un o'r lefelau.

Mae'r lefelau wedi'u categorio i roi syniad i weinyddwyr systemau o'r grŵp targed.

- **Craidd wedi'i Ganiatáu a'i Flocio** - Wedi'u hidlo'n drwm gydag eithriadau wedi'u caniatáu. Mae'r craidd yn rhagosodedig os yw'r lefelau eraill yn wag.
- **Mynediad Cyhoeddus** - Mae'n dangos safleoedd a ganiateir mewn manau cyhoeddus (llyfrgelloedd, manau cymunedol a grwpiau addysg oedolion) lle mae'r Craidd wedi'i flocio.
- **Staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu** - Mae'n dangos safleoedd a ganiateir ar gyfer staff a staff nad ydynt yn addysgu pan fydd y Craidd wedi'i flocio.
- **Myfyrwyr** - Mae'n dangos safleoedd a ganiateir i fyfyrwyr pan fydd y Craidd wedi'i flocio.

Mae'r system wedi cael ei chynllunio i fod yn hyblyg ac i ateb anghenion y defnyddiwr. Gall lefel hidlo'r rhyngrwyd gael ei newid os nad yw'r lefel bresennol yn darparu mynediad priodol.

Polisi Hidlo'r Rhyngrwyd Cyfredol

Mae'r Polisi Hidlo'r Rhyngrwyd cyfredol wedi'i atodi ar ddiwedd y ddogfen hon.